



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 2727 (Cy. 262) (C. 109)

2013 No. 2727 (W. 262) (C. 109)

**ADEILADU AC ADEILADAU,
CYMRU**

**BUILDING AND BUILDINGS,
WALES**

Gorchymyn Mesur Diogelwch Tân
Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn
Rhif 1) 2013

The Domestic Fire Safety (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No. 1) Order 2013

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf sydd wedi ei wneud o dan Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. Daw ag adran 1 o'r Mesur i rym yn llawn mewn dau gam.

This is the first commencement order made under the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011. It brings section 1 of the Measure fully into force in two stages.

Daw adran 1 i rym ar 30 Ebrill 2014 mewn perthynas â chartrefi gofal, cartrefi plant, neuaddau preswyl, mathau penodol o hostelau a thai preswyl ac ar 1 Ionawr 2016 mewn perthynas â thai annedd a fflatiau. Ni chaiff adran 1 ei chychwyn mewn perthynas â mathau penodol o adeilad, gweler Erthygl 2(3).

Section 1 comes into force on 30 April 2014 in relation to care homes, children's homes, halls of residence, certain types of hostels and boarding houses and on 1 January 2016 in relation to dwelling-houses and flats. Section 1 is not commenced in relation to certain types of building, see Article 2(3).

Mae adran 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu system llethu tân awtomatig i breswylfeydd pan gânt eu cwblhau neu eu meddiannu gyntaf fel preswylfa. Mae adran 1 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion y mae'n ofynnol i system llethu tân awtomatig gydymffurfio â hwy.

Section 1 requires residences to be provided with an automatic fire suppression system when they are completed or when they are first occupied as a residence. Section 1 confers power on the Welsh Ministers to prescribe the requirements with which an automatic fire suppression system must comply.

2013 Rhif 2727 (Cy. 262) (C. 109)

**ADEILADU AC ADEILADAU,
CYMRU**

**Gorchymyn Mesur Diogelwch Tân
Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn
Rhif 1) 2013**

Gwnaed

22 Hydref 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 8(1) a 9(3) o Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

mae i “adeilad ynni a eithrir” yr ystyr a roddir i “*excepted energy building*” yn yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(2); ac

ystyr “y Mesur” (“*the Measure*”) yw Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.

Diwrnod Penodedig

2.—(1) Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar y diwrnod penodedig yn ddarostyngedig i baragraff (3)—

- (a) adrannau 1(1) i (3);
- (b) adran 1(4) at bob diben arall; ac
- (c) adran 1(5).

(2) Y diwrnod penodedig yw—

- (a) 30 Ebrill 2014 mewn perthynas ag:

2013 No. 2727 (W. 262) (C. 109)

**BUILDING AND BUILDINGS,
WALES**

**The Domestic Fire Safety (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No. 1) Order 2013**

Made

22 October 2013

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 8(1) and 9(3) of the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011(1), make the following Order:

Title and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011 (Commencement No. 1) Order 2013.

(2) In this Order—

“excepted energy building” (“*adeilad ynni a eithrir*”) has the meaning given in the Schedule to the Welsh Ministers (Transfer of Functions) (No. 2) Order 2009(2); and

“the Measure” (“*y Mesur*”) means the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011.

Appointed Day

2.—(1) The following provisions of the Measure come into force on the appointed day subject to paragraph (3)—

- (a) sections 1(1) to (3);
- (b) section 1(4) for all remaining purposes; and
- (c) section 1(5).

(2) The appointed day is—

- (a) 30 April 2014 in relation to:

(1) 2011 mccc 3
(2) O.S. 2009/3019.

(1) 2011 nawm 3
(2) S.I. 2009/3019.

- (i) cartrefi gofal;
- (ii) cartrefi plant;
- (iii) neuaddau preswyl;
- (iv) ystafelloedd at ddibenion preswyl; a
- (b) 1 Ionawr 2016 mewn perthynas ag:
 - (i) tai annedd;
 - (ii) fflatiau.

(3) Nid yw paragraff (1) yn cychwyn darpariaethau'r Mesur mewn perthynas ag adeiladau sydd—

- (a) yn rhestredig yn unol ag adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(1);
- (b) mewn ardal gadwraeth a ddynodwyd yn unol ag adran 69 o'r Ddeddf honno;
- (c) wedi eu cynnwys yn y gofrestr o henebion a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979(2);
- (d) adeiladau ynni a eithrir; nac
- (e) adeiladau dros dro, hynny yw adeiladau sydd ag amser defnyddio a gynlluniwyd o ddwy flynedd neu lai.

- (i) care homes;
- (ii) children's homes;
- (iii) halls of residence;
- (iv) rooms for residential purposes; and
- (b) 1 January 2016 in relation to:
 - (i) dwelling-houses;
 - (ii) flats.

(3) Paragraph (1) does not commence provisions of the Measure in relation to buildings which are—

- (a) listed in accordance with section 1 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990(1);
- (b) in a conservation area designated in accordance with section 69 of that Act;
- (c) included in the schedule of monuments maintained under section 1 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979(2);
- (d) excepted energy buildings; or
- (e) temporary buildings that is to say buildings with a planned time of use of two years or less.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

22 Hydref 2013

Minister for Housing and Regeneration, one of the Welsh Ministers

22 October 2013

©© Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) 1990 (p.9).
 (2) 1979 (p.46). Diwygiwyd adran 1 gan Atodlen 4 i Ddeddf Trefnadaeth Genedlaethol 1983 (p.47).

(1) 1990 (c. 9).
 (2) 1979 (c. 46). Section 1 was amended by Schedule 4 to the National Heritage Act 1983 (c. 47).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 2727 (Cy. 262) (C. 109)

2013 No. 2727 (W. 262) (C. 109)

**ADEILADU AC ADEILADAU,
CYMRU**

**BUILDING AND BUILDINGS,
WALES**

Gorchymyn Mesur Diogelwch Tân
Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn
Rhif 1) 2013


The Domestic Fire Safety (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No. 1) Order 2013

£4.00

W1762/10/13

ON

ISBN 978-0-348-10824-8



9 780348 108248